# Adar yr ardd

Gellid gweld amrywiaeth o adar mewn gerddi ar draws y flwyddyn. Mae corff pob aderyn wedi'i orchuddio mewn plu sy'n ei alluogi i hedfan. Bydd yr adar benywaidd yn dodwy wyau mewn nyth neu mewn bocsys nythu mewn gerddi. Gellid rhoi bwydwr neu fwrdd adar i'w denu ac maent yn hoffi yfed ac ymolchi mewn bath adar hefyd!



**Y Titw Tomos Las**

- Adar bach ydynt gyda bola melyn, gwyrddfelyn ar y cefn a glas ar y pen.
- Maent yn adeiladwyr nythod taclus iawn ac yn defnyddio lafant a phlanhigion mintys i ddiheintio eu cartrefi! Gallant nythu mewn tyllau mewn coed ac mewn blychau nythu.
- Yn y gorffennol, roeddent yn dilyn dynion llaeth ac yn pigo drwy'r caeadau ffoil arnynt i gael ychydig o laeth!
- Maent yn treulio amser ym mrigau'r coed yn chwilio am bryfed yn enwedig lindys.



**Y Robin Goch**

- Mae gan bob Robin goch patrwm hollol unigryw ar eu bron gyda brest goch.
- Mae'r Robin wedi bod yn Aderyn Cenedlaethol Prydain ers 1960.
- Mae'r Robin goch yn hollysol a gallant fwyta unrhyw beth o aeron i bryfed! Maent yn gallu bod yn eithaf dewr wrth chwilio am fwyd yn agos iawn at arddwyr.

- Yn y gwanwyn mae'n amddiffyn ei diriogaeth yn ffyrnig ond yn y gaeaf maent yn aros gyda'i gilydd.
- Mae'n nythu yn unrhyw le addas.


**Cnocell y Coed**

- Mae tua 200 o wahanol rywogaethau o Gnocell y Coed.
- Mae'r ceiliog a'r iâr yn debyg ei lliw heblaw'r darn coch ar gynffon y ceiliog a darn bach coch ar ben y cywion.
- Mae'n bwydo drwy dyllu am bryfed mewn coed. Gall Cnocell y Coed bigo hyd at 20 gwaith yr eiliad. Mae tafod Cnocell y Coed yn gallu tyfu hyd at 4 modfedd o hyd (yn dibynnu ar y rhywogaeth).
- Mae ganddynt goesau byr a chryf er mwyn dal ar y goeden.
- Fel arfer, maent yn nythu mewn boncyffion coed.



**Ji-Binc**

- Mae'r aderyn bach yma yn dod i'r ardd i fwyta hadau ac i nythu.
- Mae'r iâr a'r ceiliog yn wahanol iawn. Mae'r iâr yn frown tra bod y ceiliog ag wyneb a bola orenbinc. Mae gan y ddwy linell arian yn eu hadenydd.
- Mae'n nythu yn y coed neu gaeau a gall ddodwy hyd at chwe wy.
- Gall fesur tua 16cm o hyd.



# Adar yr ardd

Gellid gweld amrywiaeth o adar mewn gerddi ar draws y flwyddyn. Mae corff pob aderyn wedi'i orchuddio mewn plu sy'n ei alluogi i hedfan. Bydd yr adar benywaidd yn dodwy wyau mewn nyth neu mewn bocsys nythu mewn gerddi. Gellid rhoi bwydwr neu fwrdd adar i'w denu ac maent yn hoffi yfed ac ymolchi mewn bath adar hefyd!


## Y Titw Tomos Las

Adar bach ydynt gyda bola melyn, gwyrddfelyn ar y cefn a glas ar y pen. Maent yn adeiladwyr nythod taclus iawn ac yn defnyddio lafant a phlanhigion mintys i ddiheintio eu cartrefi! Gallant nythu mewn tyllau mewn coed ac mewn blychau nythu. Yn y gorffennol, roeddent yn dilyn dynion llaeth ac yn pigo drwy'r caeadau ffoil arnynt i gael ychydig o laeth! Maent yn treulio amser ym mrigau'r coed yn chwilio am bryfed yn enwedig lindys.



## Y Robin Goch

Mae gan bob Robin goch patrwm hollol unigryw ar eu bron gyda brest goch. Mae'r Robin wedi bod yn Aderyn Cenedlaethol Prydain ers 1960. Mae'r Robin goch yn hollysol a gallant fwyta unrhyw beth o aeron i bryfed! Maent yn gallu bod yn eithaf dewr wrth chwilio am fwyd yn agos iawn at arddwyr. Yn y gwanwyn mae'n amddiffyn ei diriogaeth yn ffyrnig ond yn y gaeaf maent yn aros gyda'i gilydd. Mae'n nythu yn unrhyw le addas. Mae'n canu trwy'r flwyddyn ond mae ei gân yn amrywio yn ôl tymhorau.



**Cnocell y Coed**

Mae tua 200 o wahanol rywogaethau o Gnocell y Coed. Mae'r ceiliog a'r iâr yn debyg ei lliw heblaw'r darn coch ar gynffon y ceiliog a darn bach coch ar ben y cywion. Mae'n bwydo drwy dyllu am bryfed mewn coed. Gall Cnocell y Coed bigo hyd at 20 gwaith yr eiliad. Mae tafod Cnocell y Coed yn gallu tyfu hyd at 4 modfedd o hyd (yn dibynnu ar y rhywogaeth). Mae ganddynt goesau byr a chryf er mwyn dal ar y goeden. Fel arfer, maent yn nythu mewn boncyffion coed.



**Ji-Binc**

Mae'r aderyn bach yma yn dod i'r ardd i fwyta hadau ac i nythu. Mae'r iâr a'r ceiliog yn wahanol iawn. Mae'r iâr yn frown tra bod y ceiliog ag wyneb a bola orenbinc. Mae gan y ddwy linell arian yn eu hadenydd. Mae'n nythu yn y coed neu gaeau a gall ddodwy hyd at chwe wy. Gall fesur tua 16cm o hyd. Mae gan yr aderyn gân adnabyddus.



# Adar yr ardd

Gellid gweld amrywiaeth o adar mewn gerddi ar draws y flwyddyn. Mae corff pob aderyn wedi'i orchuddio mewn plu sy'n ei alluogi i hedfan. Bydd yr adar benywaidd yn dodwy wyau mewn nyth neu mewn bocsys nythu mewn gerddi. Gellid rhoi bwydwr neu fwrdd adar i'w denu ac maent yn hoffi yfed ac ymolchi mewn bath adar hefyd!



### Y Titw Tomos Las

Adar bach ydynt gyda bola melyn, gwyrddfelyn ar y cefn, glas ar y gwegil a glas ar y pen. Maent yn adeiladwyr nythod taclus iawn ac yn defnyddio lafant, planhigion mintys a chyri i ddiheintio eu cartrefi! Gallant nythu mewn tyllau mewn coed ac mewn blychau nythu. Yn y gorffennol, roeddent yn dilyn dynion llaeth ac yn dwyn llymaid o laeth oddi wrth y poteli drwy bigo drwy'r caeadau ffoil arnynt! Maent yn hoffi treulio amser ymysg brigau'r coed yn chwilio am bryfed yn enwedig lindys neu fwyta briwsion ar fwrdd adar.

### Y Robin Goch

Mae gan bob Robin goch patrwm hollol unigryw ar eu bron gyda brest goch. Mae'r Robin wedi bod yn Aderyn Cenedlaethol Prydain ers 1960. Mae'r Robin goch yn hollysol a gallant fwyta unrhyw beth o aeron i bryfed! Maent yn gallu bod yn ddrygionus ac yn eithaf dewr wrth chwilio am fwyd yn agos iawn at arddwyr. Yn y gwanwyn mae'n amddiffyn ei diriogaeth yn ffyrnig ond yn y gaeaf maent yn aros gyda'i gilydd. Mae'n nythu yn unrhyw le addas. Mae'n canu trwy'r flwyddyn ond mae ei gân yn wahanol yn y gwanwyn a'r haf i'w gân yn yr hydref a'r gaeaf.



## Cnocell y Coed

Mae tua 200 o wahanol rywogaethau o Gnocell y Coed. Mae'r ceiliog a'r iâr yn debyg ei lliw heblaw'r darn coch ar gynffon y ceiliog a darn bach coch ar ben y cywion. Mae'n bwydo drwy dyllu am bryfed mewn coed. Gall Cnocell y Coed bigo hyd at 20 gwaith yr eiliad. Mae tafod Cnocell y Coed yn gallu tyfu hyd at 4 modfedd o hyd (yn dibynnu ar y rhywogaeth) ac maent yn gallu lapio o amgylch eu penglog! Mae ganddynt goesau byr a chryf er mwyn dal ar y goeden. Fel arfer, maent yn nythu mewn tyllau boncyffion coed.





## Ji-Binc

Mae'r aderyn bach yma yn dod i'r ardd i fwyta hadau ac i nythu. Mae'r iâr a'r ceiliog yn wahanol iawn. Mae'r iâr yn frown tra bod y ceiliog ag wyneb a bola orenbinc. Mae ganddo gefn brown a chorun llwydlas. Mae gan y ddwy linell arian yn eu hadenydd. Mae'n nythu yn y coed neu gaeau a gall ddodwy hyd at chwe wy. Gall fesur tua 16cm o hyd. Mae gan yr aderyn gân adnabyddus.

## Gwennol y Bondo

Mae'r aderyn yma yn fudol sy'n golygu eu bod yma o ddiwedd Ebrill ac yna am yr haf cyn treulio'r gaeaf yn Affrica. Maent yn adeiladu nyth o fwd siâp hanner cylch o dan fondo adeilad. Maent yn bwyta pryfed o gaeau, llwyni a choed. Mae ganddynt fola gwyn a darn mawr wyn ar y cynffon sydd mewn siâp 'V'.

